

Arolygiad Dilynol o Bractis Deintyddol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Sketty Road,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe

Dyddiad arolygu: 10 Mehefin
2019

Dyddiad cyhoeddi: 11 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	21
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Sketty Road, 17 Sketty Road, Abertawe, SA2 0EU sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 10 Mehefin 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r practis wedi cymryd camau gweithredu sylweddol ers ei arolygiad diwethaf ac, o ganlyniad, mae AGIC wedi penderfynu nad yw'r practis bellach yn wasanaeth sy'n peri pryder.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y gwelliannau yn parhau er mwyn sicrhau y rhoddir y gofal gorau posibl i gleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r materion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf er mwyn sicrhau bod amgylchedd y practis yn addas at y diben.
- Mae'r practis wedi penodi rheolwr practis i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Arolygwyd Practis Deintyddol Sketty Road gan AGIC am y tro cyntaf ar 15 Hydref 2018. Cwblhawyd arolygiad dilynol dirybudd wedyn ar 20 Tachwedd 2018 oherwydd natur y pryderon yn dilyn yr arolygiad cychwynnol.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad cychwynnol yn cynnwys y canlynol:

- Rheoli heintiau a threfniadau hylendid yn y practis, gan gynnwys hylendid cyffredinol a glendid y tu fewn a'r tu allan i'r ardaloedd clinigol
- Prosesau a gweithdrefnau i ddangos sut i ddefnyddio offer a ddefnyddir i sterileiddio offer deintyddol yn ddiogel
- Difrod i'r adeilad gan gynnwys lleithder ac erydu a oedd yn effeithio ar ardaloedd clinigol
- Defnyddio darnau dril endodontig untro sawl gwaith ar gleifion
- Hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr arolygiadau blaenorol. Ni chafodd meysydd eraill o fewn y rheoliadau eu hystyried yn ystod yr ymweliad hwn.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ni wnaethom ystyried unrhyw agweddau ar brofiad cleifion yn ystod yr arolygiad dilynol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod y practis wedi cymryd camau gweithredu digonol i sicrhau ei fod yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae'r practis hefyd wedi cymryd camau gweithredu sylweddol i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas at y diben, gan gynnwys sicrhau bod y waliau yn gallu gwrthsefyll lleithder ac ailaddurno'r ddeintyddfa gefn.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau, ac yn parhau i wella cofnodion cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

- Mae'n rhaid i'r practis roi polisi rheoli risg ar waith.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân priodol yn ôl y rheoliadau
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar yn addas i'w ddefnyddio ac o fewn y dyddiadau dod i ben.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ardal yr ystafell ymolchi yn cael ei glanhau'n drwyadl.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

- Mae polisi rheoli risg wedi cael ei ysgrifennu ac mae mewn ffolder rheoli risg
- Mae contract diogelwch tân wedi'i drefnu gyda Chubb ar unwaith
- Mae'r holl gyfarpar a deunyddiau deintyddol cyfredol o fewn y dyddiadau dod i ben
- Mae ardal yr ystafell ymolchi yn cael ei glanhau'n ddyddiol a'i glanhau'n drwyadl ddwywaith yr wythnos gan lanhawr allanol dan gontract

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd polisi rheoli risg wedi cael ei rhoi ar waith i gefnogi'r asesiadau risg ehangach ar gyfer y practis. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo bod y polisi yn amwys, nid oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys lle'r oedd dod o hyd i gyfarpar yn y practis a chyfrifoldebau unigolion. Gwnaethom argymhell bod angen ymestyn y polisi i gynnwys esboniad clir a chynhwysfawr o arferion rheoli risg a chyfrifoldebau ar gyfer y staff.

Gwelsom fod contract tân wedi'i lunio er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau diogelwch tân. Roedd hyfforddiant yn cael ei drefnu gyda'r contractwyr er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân priodol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gynnal adolygiad o'r deunyddiau deintyddol yn y practis, a gwelsom fod yr holl gyfarpar a welwyd o fewn ei ddyddiad dod i ben. Gwelsom brotocol ar gyfer gwirio cyfarpar yn y practis yn rheolaidd gan y nyrsys deintyddol.

Gwelsom fod y practis yn llawer glanach yn yr ardaloedd clinigol ac anghlinigol. Roedd ardal yr ystafell ymolchi yn amlwg yn lân ac yn daclus, ac roedd wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad blaenorol. Gwelsom dystiolaeth o'r contract glanhau ar waith, ac roeddem yn fodlon bod hyn yn darparu gwaith glanhau trylwyr priodol ar gyfer y practis, ochr yn ochr â glanhau dyddiol gan y staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gael polisi rheoli risg clir a chynhwysfawr er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Atal a rheoli heintiau

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod protocol yn cael ei roi ar waith i gadarnhau'r broses o roi dyddiad ar gyfarpar wedi'i sterileiddio.
- Dylai'r practis ystyried defnyddio dyfeisiau ailorchuddio ar gyfer nodwyddau
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi'i amddiffyn rhag Hepatitis B
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliad rheoli heintiau yn cael ei gynnal

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

- Mae protocol wedi cael ei roi ar waith
- Mae dyfeisiau ailorchuddio yn cael eu hystyried
- Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei imiwneiddio heblaw am un aelod sydd dan hyfforddiant sydd wedi cwblhau dwy ran o'r broses tri cham

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwnaethom nodi fod protocol ar gyfer sterileiddio a rhoi dyddiad ar gyfarpar wedi cael ei roi ar waith.

Gwelsom dystiolaeth o imiwneiddio ar gyfer pob aelod presennol o'r staff yn y practis heblaw'r nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Gwnaethom nodi y bydd y nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant yn cael y drydedd ddos briodol o'r imiwneiddio pan fydd wedi'i drefnu. Nid oeddem yn gallu gweld cadarnhad o amddiffyn rhag Hepatitis B a hyfforddiant ar gyfer un aelod o'r staff, nad oedd yn y gwaith ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y rheolwr fod y bwrdd iechyd wedi cynghori y dylai'r dystiolaeth hon ddod i law cyn dechrau swydd yn y practis. Gwnaethom gefnogi'r cyngor hwn.

Gwnaethom nodi hefyd fod archwiliad rheoli heintiau wedi dechrau. Fodd bynnag, nid oedd llawer o waith wedi cael ei wneud ar hwn. Gellir gweld rhagor o wybodaeth isod.

Gwelsom fod dyfeisiau ail-orchuddio bellach ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Rheoli Meddyginiaethau

- Mae'n rhaid i'r practis roi polisi dadebru ar waith
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod aelod o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ar y safle bob amser
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys nodyn o'r hyfforddiant diweddaraf er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff tystiolaeth o'r gwiriadau rheolaidd a gynhelir o'r cyfarpar dadebru brys a chymorth cyntaf ei chadw.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Rheoli Meddyginiaethau

- Mae polisi dadebru wedi cael ei roi ar waith
- Mae dau aelod o'r staff llawn amser wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf
- Mae pob ffeil bellach yn gyfredol
- Cedwir cofnod o wiriadau rheolaidd o gyfarpar dadebru brys a chymorth cyntaf.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Rheoli Meddyginiaethau

Mae'r practis wedi rhoi polisi dadebru ar waith er mwyn sicrhau fod y staff yn ddigon parod ar gyfer argyfyngau meddygol yn y practis. Fodd bynnag, fel y polisi rheoli risg, roedd y polisi yn amwys ac nid oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth y byddem yn disgwyl ei weld. Gwnaethom argymhell y dylid ymestyn y polisi i gynnwys esboniad clir a chynhwysfawr o arferion dadebru a chyfrifoldebau ar gyfer y staff.

Gwelsom dystiolaeth fod aelodau amrywiol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, ac felly roedd y practis yn sicrhau bod y staff yn ddigon parod ar gyfer digwyddiad a oedd yn gofyn am gymorth cyntaf.

Gwelsom fod holl ffeiliau'r staff, ac eithrio un unigolyn, yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl dystiolaeth angenrheidiol fod y staff yn ddiogel i ymarfer yn y ddeintyddfa. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant CPR a hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer staff.

Gwelsom fod cofnod bellach ar waith ar gyfer gwirio'r cyfarpar dadebru brys yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys yr holl wiriadau hanfodol sy'n ddisgwyliedig gan y practis. Fodd bynnag, gwelsom fod gwiriadau'r pecyn cymorth cyntaf ar y cofnod yn gyfyngedig, a gwnaethom gynghori'r practis i greu cofnod cynhwysfawr i ddarparu sicrwydd fod yr holl eitemau yn y pecyn yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod yr holl gyfarpar yn y pecynnau cymorth cyntaf a dadebru brys o fewn eu dyddiadau defnyddio ac mewn cyflwr da.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

- Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom dystiolaeth ar y diwrnod fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu digonol ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a gwnaethant ddarparu tystiolaeth o hynny.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

- Mae'n rhaid i'r practis geisio cyngor proffesiynol ynglŷn â lleoliad y swits arwahanu ar gyfer y cyfarpar pelydr-X yn y ddeintyddfa gefn
- Mae'n rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) IR(ME)R digonol.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

- Mae'r swits arwahanu wedi cael ei symud y tu allan i'r ardal a reolir
- Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant IR(ME)R.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd y practis wedi ceisio cyngor proffesiynol ac wedi ymgymryd â'r weithred o symud y swits arwahanu ar gyfer y cyfarpar pelydr-X i leoliad diogel. Mae'r practis hefyd wedi darparu tystiolaeth ddigonol bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd wedi cwblhau hyfforddiant IR(ME)R digonol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau priodol, megis archwiliadau o reoli heintiau a chadw cofnodion, yn cael eu cynnal.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

- Mae archwiliadau priodol wedi dechrau.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau gan gynnwys rheoli heintiau (WHTM 01-05) wedi cael eu cynnal. Gwnaethom nodi fod archwiliad WHTM 01-05 wedi dechrau yn ddiweddar ond nad oedd llawer o

waith wedi cael ei wneud. Gwnaethom argymhell y dylid cwblhau'r archwiliadau hyn er mwyn darparu sicrwydd o arfer diogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod amrywiaeth o archwiliadau gan gynnwys archwiliad cadw cardiau ac archwiliad rheoli heintiau yn cael eu cynnal.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod copïau electronig a phapur wedi'u diogelu'n briodol yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

- Mae cyfrinair ar bob cyfrifiadur.
- Cedwir copïau papur mewn ardal ddiogel.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod pob cyfrifiadur bellach wedi'i ddiogelu â chyfrinair bob amser. Gwelsom hefyd fod copïau papur o gofnodion cleifion yn cael eu cadw mewn cabinetau dan glo.

Cadw cofnodion

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Cadw cofnodion

- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Cadw cofnodion

- Cwblheir yr holl gofnodion deintyddol yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Er bod ansawdd y cofnodion wedi gwella ers yr arolygiadau blaenorol, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau pellach. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i gadw cynlluniau triniaeth fel rhan o nodiadau cleifion. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae Deintyddfa Sketty Road yn berchen i'r prif ddeintydd, sef yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig hefyd. Caiff ei gynorthwyo gan ddau ddeintydd cyswllt a thair nyrs ddeintyddol.

Yn ystod yr arolygiad dilynol, gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu yn y practis. Mae'r practis bellach wedi rhoi cynllun o arfarnu'r staff ar waith ac mae bellach yn cadw cofnodion cynhwysfawr mewn perthynas â gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus staff a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cadw dogfennaeth i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddarau i gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau
- Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd ystyried a oes angen cymorth rheoli ychwanegol er mwyn sicrhau y gellir rhannu cyfrifoldebau'r rheolwr cofrestredig o ran asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

- Mae'r holl ddogfennaeth bellach yn cael ei chadw yn ffolderi'r staff
- Mae'r practis yn diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â rheoliadau
- Mae'r prif ddeintydd wedi ymgysylltu â rheolwr practis sydd ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd ond bydd yn dechrau pan fydd yn dychwelyd.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd dystysgrif gyfredol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom hefyd fod y datganiad o ddiben wedi cael ei ddiweddarau fel ei fod yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Yn olaf, roedd rheolwr practis wedi cael ei recriwtio i'r rôl, ond nid oedd wedi dechrau eto. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig fod yn rhaid cynnal y gwiriadau perthnasol er mwyn sicrhau bod gan yr unigolyn y sgiliau, y wybodaeth, y profiad a'r cofrestriad proffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Y Gweithlu

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod arfarniadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

Y Gweithlu

- Bydd arfarniadau rheolaidd yn dechrau yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Y Gweithlu

Gwelsom dystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod pob aelod o'r staff bellach yn ymgymryd ag arfarniadau rheolaidd gyda'r rheolwr cofrestredig a ddechreuodd ym mis Ionawr 2019.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Sketty Road

Dyddiad arolygu: 10/06/2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Sketty Road

Dyddiad arolygu: 10/06/2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis gael polisi rheoli risg clir a chynhwysfawr er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r disgwyliadau gan y practis	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Polisi rheoli risg y practis i gael ei adolygu	Paul James	31/08/2019
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod amrywiaeth eang o archwiliadau, gan gynnwys archwiliad cadw cardiau ac archwiliad rheoli heintiau, yn cael eu cynnal.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi	Bydd y practis yn ymgysylltu ag Uned Cymorth Proffesiynol Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol i ddatblygu Cynllun Datblygu Personol a'i roi ar waith ym mhorthffolio cymorth lefel 2 Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Caiff archwiliadau priodol a nodwyd ac y cytunwyd arnynt gan yr Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig a'r Bwrdd	Paul James	01/09/2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Iechyd eu cwblhau gan adlewyrchu'r pryderon a amlygwyd		
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	Caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol	Paul James	22/07/2019

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Paul James

Teitl swydd: Perchennog y Practis

Dyddiad: 29/07/2019